# Trychineb Pwll Glo Gresffordd

# Gresford Colliery Disaster




Uchod: Y gofeb a godwyd ar dir Clwb Pwll Glo Gresffordd ym 1982, bron i hanner canrif ar ôl y drychineb. Mae i'r gofeb ddwy golofn o feini sy'n cynnal un o'r chwerfannau weindio o'r pwll glo. Yn 2000 fe ychwanegwyd at y gofeb enw pob un a gollodd ei fywyd yn y drychineb.

Above: The memorial erected in the grounds of Gresford Colliery Club in 1982, nearly fifty years after the disaster. The memorial has two tapering stone piers supporting one of the winding sheaves from the colliery. In 2000 the names of all those who had lost their lives in the disaster were added to the memorial.




Uchod: Cynhyrchodd Pwll Glo Gresffordd ei lo cyntaf ym 1911 ac erbyn 1934 fe gyflogai 2200 o ddynion. Roedd dwy siafft i'r pwll a'r rheiny'n rhyw 60m ar wahân ac wedi'u suddo i ddyfnder o 690m: yr un i lawr (gogledd) a elwid yn Dennis, a'r un i fyny (de) a elwid yn Martin. Câi glo ei dynnu i fyny siafft Dennis a châi defnyddiau eu hanfon i lawr siafft Martin. Ar 25ain Medi 1934, dridiau ar ôl y drychineb, llofnododd 1100 o lowyr gofrestr y di-waith. Ailddechreuwyd cynhyrchu glo yn gynnar ym 1936 ond nid ailagorwyd adran Dennis. Caewyd y pwll glo ym 1973 a chliriwyd y safle. Parc Diwydiannol Gresffordd sydd yno bellach.




Above: Gresford Colliery produced its first coal in 1911 and employed 2200 men by 1934. The mine had two shafts, some 60m apart and each sunk to a depth of 690m: the downcast (north), which was known as the Dennis, and the upcast (south), which was called the Martin. Coal was wound up the Dennis shaft and materials sent down the Martin shaft. On the 25 September 1934, three days after the disaster, 1100 miners signed on the unemployment register. Coal production resumed early in 1936, but the Dennis section never reopened. The colliery closed in 1973, the site was cleared and is now occupied by Gresford Industrial Park.

Chwith: Awyrlun lletraws o Bwll Glo Gresffordd a dynnwyd fis ar ôl un o'r trychinebau gwaethaf mewn pwll glo yn y wlad. Lladdodd ffrwydrad mawr a thân yn adran Dennis 266 o ddynion ar 22 Medi 1934. Does dim arwydd amlwg o ddifrod ar yr wyneb na'r un arwydd o gwbl o weithgarwch.

Left: Oblique aerial photograph of Gresford Colliery taken one month after one of the worst mining disasters in the country when a major explosion and subsequent fire in the Dennis section killed 266 men on the 22 September 1934. There are no obvious signs of damage at the surface and no signs of any activity whatsoever.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
*Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru*

Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales
*National Monuments Record of Wales*

Plas Crug, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1NJ

*Ffôn/ Telephone:* 01970 621200

www.cbhc.gov.uk / www.rcahmw.gov.uk